# ADRODDIAD CHWARTEROL I'R CABINET: BWRDD RHAGLEN Y CYNLLUN YMATEB

YR ATHRO SALLY HOLLAND: CADEIRYDD Y BWRDD YMATEB

DYDDIAD: 4 Tachwedd 2025

## Cyflwyniad

Ers fy adroddiad blaenorol i'r Cabinet ym mis Gorffennaf 2025, mae Bwrdd Rhaglen y Cynllun Ymateb ("Y Bwrdd") wedi parhau i gwrdd yn rheolaidd a monitro cynnydd ar draws holl ffrydiau gwaith y Cynllun Ymateb. Cynhaliwyd tri chyfarfod pellach ers fy adroddiad blaenorol, yn cynnwys un cyfarfod wyneb-yn-wyneb gyda'r tîm adolygu CPR. Bu lefel uchel o ymgysylltu gyda'r Bwrdd, a chafwyd presenoldeb o 100% yn y cyfarfodydd gan gynrychiolwyr Cyngor Gwynedd ac asiantaethau allanol, sy'n dangos bod aelodau ac arsylwyr yn ystyried hyn yn flaenoriaeth.

Wrth i mi gwblhau'r adroddiad hwn, mae'r Adroddiad Ymarfer Plant (CPR) ar fin cael ei gyhoeddi, a bydd wedi cael ei gyhoeddi erbyn i mi gwrdd â'r Cabinet ar 11 Tachwedd.

Mae'r Bwrdd yn cydnabod yr amgylchiadau anodd pan oedwyd cyhoeddiad yr adroddiad CPR yn flaenorol, a hynny yn annisgwyl, a phwysleisiaf mai'r brif ystyriaeth oedd yr effaith bosib ar y dioddefwyr a'r goroeswyr. Mae aelodau'r Bwrdd hefyd wedi mynegi pryder yn ystod y cyfnod hwn am yr effaith ar yr ysgol a'r gwasanaethau eraill sy'n cael eu cynnwys yn yr adroddiad ac mae wedi ceisio sicrwydd gan uwch swyddogion yng Nghyngor Gwynedd bod cefnogaeth wedi bod yn ei lle dros y tri mis diwethaf.

Gan mai newydd gael ei gyhoeddi'n ddiweddar y mae'r adroddiad, rhaid i mi wneud yn glir bod yr adroddiad hwn yn cynnwys gwybodaeth am weithgareddau'r Bwrdd cyn iddo gael ei gyhoeddi. Nid yw'r Bwrdd wedi cyfarfod ers iddo gael ei gyhoeddi.

## Y Sefyllfa Gyfredol

Yn ystod y chwarter hwn, mae'r Bwrdd wedi parhau i dderbyn diweddariadau ar y gwaith gwella sy'n mynd rhagddo yng Ngwynedd. Ers fy adroddiad diwethaf, rydym wedi gweld datblygiadau pellach, ac yn benodol;

- *Archwiliad mewnol i ymwybyddiaeth gweithlu Cyngor Gwynedd o drefniadau diogelu*
- *Cytunwyd ar gyllid a chrëwyd swydd i benodi i rôl Pencampwr Diogelu newydd fydd yn helpu i godi ymwybyddiaeth a pharhau i wella'r nifer sy'n gwneud yr hyfforddiant*
- *Adolygwyd Rhan Ch y cynllun gwaith (Cefnogi a Sefydlogi Ysgol Friars), gyda mewnbwn Cadeirydd y Llywodraethwyr a'r Pennaeth dros dro, i adlewyrchu'r blaenoriaethau allweddol ar gyfer yr ysgol.*
- *Adolygodd y Gwasanaethau Plant eu gweithdrefnau ymhellach, e.e. Trafodaethau Strategaeth/Cyfarfodydd Rhan 5, i adlewyrchu'r dysgu hyd yma*

Ymysg yr hyn sydd wedi herio cynnydd mae:

- Sicrhau bod yr holl staff wedi cwblhau'r hyfforddiant diogelu ar-lein gorfodol. Mae heriau penodol i sicrhau bod gan rai staff rheng flaen fynediad at gyfleusterau cyfrifiadurol i gwblhau'r hyfforddiant (yn bennaf, staff sydd ddim yn gweithio mewn swyddfa, megis y rhai yn y Gwasanaeth Gwastraff ac Ailgylchu a'r Gwasanaeth Glanhau), ac mae'r Bwrdd wedi gofyn am ddiweddariadau rheolaidd tra bo datrysiadau i hyn yn cael eu rhoi ar waith.
- O ran Erthygl 12 yr UNCRC (hawliau plant a phobl ifanc i gael gwrandawiad a bod yn rhan yn y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt), adroddwyd bod fforwm ieuenctid Gwynedd wedi bod yn y broses o gael ei ailsefydlu eleni. Mae'r Bwrdd yn edrych ymlaen i glywed mwy am hyder pobl ifanc mewn diogelu, a'u profiad o ddiogelu yng Ngwynedd, drwy'r fforwm ieuenctid a mecanweithiau eraill. Fel Cadeirydd, rwyf wedi annog yr awdurdod lleol i ystyried adolygu a gwneud gwaith pellach i ymgorffori holl hawliau plant ledled y sir ac mae uwch swyddogion wedi mynegi eu dymuniad i wneud hyn. Mae gweithdy hanner diwrnod wedi'i drefnu yn gynnar yn 2026.
- Er bod adnoddau ychwanegol wedi dod ar gael, mae'r gwaith gwella yn cael ei wneud ar ben llwythi gwaith trwm y staff allweddol. Mae'r Bwrdd yn parhau i ystyried yr adnodd a ragwelir fydd ei angen ar ôl cyhoeddi'r CPR (h.y. staffio a hyfforddiant), i sicrhau bod Cyngor Gwynedd yn medru cyflawni'r Rhaglen Waith mewn modd amserol.

Wrth aros i'r adroddiad CPR gael ei gyhoeddi, mae'r Bwrdd wedi bod yn mynd ati'n weithredol i roi cyngor ar y cynllun ymateb ac efallai y bydd y mesurau effaith yn cael eu hailsiapio a'u hailddatblygu mewn ymateb i ganfyddiadau ac argymhellion yr adroddiad. Gwnaed hyn gyda'r nod o sicrhau y bydd y Bwrdd yn barod i ymateb yn brydlon ac yn gynhwysfawr i ganfyddiadau'r CPR, unwaith y maent ar gael i ni.

Yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd Ymateb yn ystod wythnos gyntaf mis Rhagfyr, gofynnir i aelodau ac arsylwyr ystyried cynllun gwaith sydd wedi'i ddatblygu ymhellach, yn ogystal â chyfres o fesurau.

Yn y cyfamser, mae gwaith yn cael ei wneud yn genedlaethol ac yn rhanbarthol sy'n debygol o gael effaith uniongyrchol ar waith y Bwrdd a bydd yn bwysig bod y cynllun ymateb yn cael ei alinio â'r datblygiadau cenedlaethol hyn;

- Llywodraeth Cymru - **Adolygu Mecanweithiau Llywodraethu ac Atebolrwydd**
- Llywodraeth Cymru **- Adolygu Cyrff Llywodraethu Ysgolion.**
- Comisiynydd Plant - Argymhelliad am lywodraethu ysgolion: **Adroddiad Blynyddol y Comisiynydd Plant**

Bydd y Bwrdd yn parhau i sicrhau bod unrhyw ddatblygiadau rhanbarthol neu genedlaethol ac argymhellion newydd ohonynt yn bwydo i mewn i'r cynllun gwaith. Mae'r Bwrdd yn parhau i gael ei ddiweddaru a'i friffio ar y datblygiadau hyn gan y cyrff allanol sydd hefyd yn

eistedd ar y Bwrdd fel arsylwyr. Mae'r Bwrdd wedi cynghori y dylai Cyngor Gwynedd anelu i wneud gwelliannau sy'n rhagweld datblygiadau cenedlaethol, lle nad yw hynny'n torri canllawiau presennol, yn hytrach nag aros iddynt gael eu cyhoeddi. Mae Cyngor Gwynedd yn cytuno'n llwyr gyda'r dull hwn.

## Craffu a Sicrwydd

Fel Cadeirydd, rwyf yn cadw golwg fanwl iawn ar y **mecanweithiau** amrywiol sydd ar gael i'r Bwrdd i graffu, cefnogi a rhoi cyngor ar gynnydd. Yn gryno, maent fel a ganlyn:

1. Cyn y cyfarfodydd, mae'r Bwrdd yn derbyn diweddariad ysgrifenedig ar bob cam gweithredu yn y cynllun ymateb. Mae swyddogion arweiniol yn adrodd ar lafar ar y rhain yng nghyfarfodydd y Bwrdd ac mae cyfle i holl aelodau'r Bwrdd holi cwestiynau amdanynt.

2. Wrth i'r misoedd fynd heibio, rydym yn dechrau derbyn rhai canfyddiadau o'r mesurau effaith. Ar y cam hwn, mae'r rhain yn ymwneud yn bennaf ag *allbynnau*, e.e. faint o staff sydd wedi cwblhau hyfforddiant, faint o ysgolion sydd wedi'u hymweld a'u canfod i fod yn cydymffurfio â'r polisïau a'r gweithdrefnau disgwyliedig. Mae gwaith mesur *deilliannau*, megis hyder plant, rhieni a staff yn y trefniadau diogelu yn eu lleoliadau, yn cael ei gynllunio ac fe adroddir ar hyn i'r Bwrdd fel y daw'r wybodaeth ar gael.

3. Rwyf yn cynnal cyfarfodydd y tu allan i'r Bwrdd i ganfod beth yw profiad pobl o'r gwaith gwella. Er enghraifft, yn ystod y chwarter hwn, rwyf wedi cwrdd â Phennaeth a Chadeirydd Llywodraethwyr Ysgol Friars, a RASAC (yr elusen sy'n darparu peth o'r gefnogaeth a'r cwnsela i ddioddefwyr a chymuned ehangach yr ysgol). Hefyd, rwyf yn cyfarfod bob chwarter gydag aelodau cyrff allanol cenedlaethol sy'n gweithredu fel arsylwyr i'r panel i ofyn am eu barn ar y cynnydd. Mae'r materion sy'n cael eu codi yn y cyfarfodydd yma yn cael eu cofnodi gen i ac yn cael eu trafod gyda'r uwch swyddogion perthnasol.

4. Mae Cylch Gorchwyl y Bwrdd yn cael ei adolygu yn gyson. Un newid a wnaed cyn fy niweddariad blaenorol yw egluro rôl Aelodau Cabinet ar y Bwrdd Ymateb. Mae'r pedwar Aelod Cabinet sy'n rhan o'r Bwrdd Ymateb yn bresennol i ddarparu atebolrwydd i'r cyhoedd, sicrhau elfen ddemocrataidd i'r bwrdd a sicrhau bod adnoddau yn eu lle i gefnogi'r gwaith. Fel Cadeirydd, rwyf yn cwrdd â'r aelodau hyn yn chwarterol i drafod cynnydd y Bwrdd.

5. Mae archwiliadau rheolaidd yn cael eu cynnal o ysgolion a'r ddarpariaeth gofal cymdeithasol gan yr arolygiaethau perthnasol ac mae'r archwiliadau hyn yn ystyried yr elfen ddiogelu bob amser. Yn ogystal, yn ystod y mis hwn, mae Estyn ac Arolygiaeth Gofal Cymru yn cynnal archwiliad ar y cyd o ddiogelu, a hynny ar lefel

sirol. Mae'r adroddiadau archwilio allanol yma ar gael i'r Bwrdd, ac mae gan y ddwy asiantaeth statws fel arsylwyr yn y cyfarfodydd.

Gan ddefnyddio'r dulliau uchod, mae peth triongli o'r ffynonellau tystiolaeth ac fe all y Bwrdd Ymateb ddefnyddio hyn i graffu a chefnogi cynnydd.

## Camau Nesaf

Mae'r Bwrdd yn rhagweld y bydd yn adolygu canfyddiadau'r adroddiad CPR ar y cyfle cynharaf bosib. Hefyd, bydd y Bwrdd yn adolygu ac yn rhoi cyngor ar fersiwn ddiwygiedig Cyngor Gwynedd o'r Cynllun Ymateb. Mae disgwyl iddo ymgorffori amcanion a thasgau newydd neu ddiwygiedig. Yn ogystal, mae'r Bwrdd wedi ymrwymo i fireinio ei fesurau effaith a deilliant i sicrhau bod cynnydd yn cael ei dracio, yn ogystal â'i asesu'n ystyrlon yn erbyn ein hamcanion cyffredinol, sef *Cydnabod, Ymddiheuro, Cefnogi, Sefydlu, Dysgu, Gwella* a bod yn *Atebol.*

## Sylwadau i Gloi

I grynhoi, mae hwn wedi bod yn chwarter heriol i'r bwrdd ymateb yn dilyn yr oedi annisgwyl gyda chyhoeddiad yr adroddiad CPR. Mae hyn wedi arwain at oedi o ran medru ailddatblygu'r cynllun ymateb a'r mesurau effaith i gwrdd â chanfyddiadau ac argymhellion y CPR. Gan mai dim ond newydd gael ei gyhoeddi y mae'r adroddiad CPR, mae'r adroddiad hwn i'r Cabinet yn angenrheidiol gyfyngedig gyda manylion am safbwyntiau'r Bwrdd ar ymateb Cyngor Gwynedd i'r canfyddiadau hynny. Byddaf mewn sefyllfa i ddarparu adroddiad mwy cynhwysfawr a llawn yn y diweddariad chwarterol nesaf.

Hefyd, bu oedi angenrheidiol o ran asesu'r cyfnod o amser y bydd y cynllun ymateb a'r Bwrdd yn parhau, cyn i'r gwaith gael ei ymgorffori yn rhan o weithrediadau arferol Cyngor Gwynedd. Bydd hyn yn cael ei asesu ar ôl i'r adroddiad CPR gael ei gyhoeddi.

Mae'r Bwrdd yn parhau i fod wedi ymrwymo i graffu a chynghori Cyngor Gwynedd i sicrhau bod yr holl welliannau angenrheidiol yn cael eu hymgorffori yn effeithiol a bod buddion y dioddefwyr, y goroeswyr a'r gymuned ehangach yn parhau i fod yn ganolog i bob cam gweithredu a roddir ar waith.

Hoffwn ddiolch i holl aelodau'r Bwrdd a'r partneriaid am eu hymgysylltiad parhaus a'u parodrwydd i addasu, a hynny mewn cyfnod pwysig a sensitif i ddod.

**Yr Athro Sally Holland**

Cadeirydd Bwrdd Rhaglen y Cynllun Ymateb